# Swyddog Prosiect Rhiant-wirfoddolwyr

## Medi 2025 – Mawrth 2026

## Ydych chi wedi gweithio gyda rhieni?
## Oes gennych chi awydd angerddol i gefnogi rhieni i gael llais a chymryd rhan?

*DS Rydyn ni'n defnyddio'r term 'rhieni' yn gynhwysol i gyfeirio at rieni (mamau a thadau), teidiau a neiniau, rhieni maeth, rhieni mabwysiadol neu unrhyw un sydd â chyfrifoldeb rhiant.*

Mae Plant yng Nghymru yn cynnig cyfle i weithiwr proffesiynol profiadol ymuno â'n tîm i arwain prosiect cyffrous a fydd yn datblygu **model rhiant-wirfoddolwyr.**

Mae Plant yng Nghymru wedi partnera ag awdurdodau lleol Sir Gâr, Sir Benfro a Cheredigion sy'n cydweithio ar draws ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, i sefydlu model newydd, arloesol ar gyfer rhiant-wirfoddolwyr.
Mae gan rieni gyfoeth o wybodaeth, profiad ac arbenigedd ac yn aml maen nhw'n troi at deulu, ffrindiau a rhieni eraill am gefnogaeth y tu hwnt i'r hyn a gynigir gan weithwyr proffesiynol.

Ein bwriad yw datblygu model o gefnogaeth a gyflwynir gan rieni i rieni, yn benodol yn y tair sir yng Ngorllewin Cymru.

Bydd rhiant-wirfoddolwyr yn neilltuo ychydig o oriau bob wythnos i sgwrsio â rhieni eraill am y gwasanaethau lleol sydd ar gael i deuluoedd, gyda phwyslais penodol ar wasanaethau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar, a gwybodaeth a chyngor am gostau byw i deuluoedd sy'n cynnwys o leiaf un plentyn blynyddoedd cynnar (0-7 oed).

## Penodiad

Ein bwriad yw penodi gweithiwr proffesiynol sydd â chymwysterau a phrofiad addas i arwain y prosiect hwn â chymorth a goruchwyliaeth gan **Plant yng Nghymru** Children in Wales | Putting children at the heart of our work a **Cyswllt Rhieni Cymru.** Parents Connect Wales Hub

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gallu dangos dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cynnwys rhieni; bydd ganddynt brofiad o weithio gyda rhieni o wahanol gefndiroedd ac ymgysylltu â nhw, a'r gallu i arwain a chwblhau'r prosiect hwn o fewn y terfynau amser a bennwyd Sefydlwyd cynllun gwaith eglur i lywio'r prosiect a bydd cyfarfodydd rheolaidd yn caniatáu cydweithio a datblygu.

Bydd y tasgau allweddol yn cynnwys

- Cynllunio, paratoi a chyflwyno rhaglen hyfforddi addas i riant-wirfoddolwyr
- Cynllunio, paratoi a chyflwyno digwyddiadau rhanbarthol a chymunedol gyda rhiant-wirfoddolwyr a rhanddeiliaid lleol i hyrwyddo'r gwaith a gyflawnir
- Cwblhau adroddiad gwerthuso, gan ymgysylltu â rhieni a rhanddeiliaid er mwyn llywio'r broses
- Cyfrannu at gyfarfodydd rheolaidd gyda swyddogion arweiniol yr awdurdodau lleol

## Pwy allai fod â diddordeb:

Rydyn ni'n croesawu ystod eang o geisiadau.

**Gallai'r swydd hon fod o ddiddordeb i'r canlynol:** pobl sy'n gweithio mewn timau cymorth i deuluoedd a magu plant mewn Awdurdod Lleol, Ymchwilwyr a gweithwyr Trydydd Sector, ynghyd â gweithwyr proffesiynol sydd â phrofiad o waith cyfranogol gyda rhieni

## Y manylion:

**Cyfnod y swydd**: Bydd y prosiect ar waith rhwng 1 Medi 2025 a 31 Mawrth 2026
**Oriau Gwaith:** 17.5 awr yr wythnos
**Cyflog:** £35,893.80 pro rata
**Lleoliad**: Gweithio Ystwyth – Bydd gofyn i chi weithio yn ardal awdurdodau lleol Sir Gâr, Sir Benfro a Cheredigion, yn ogystal â gweithio gartref neu yn ein swyddfa yng Nghaerdydd. Bydd mynediad i drafnidiaeth yn hanfodol bwysig ac ad-delir costau teithio.

Croesewir ceisiadau ar gyfer y rôl hon ar sail secondiad. Os ydych chi'n ymgeisydd sy'n gweithio i sefydliad arall, gofalwch fod y trefniadau angenrheidiol yn eu lle gyda'ch cyflogwr cyfredol cyn i chi gyflwyno cais.

I gael trafodaeth anffurfiol cyn ystyried gwneud cais, cysylltwch ag Anna Westall – Uwch-swyddog Polisi anna.westall@childreninwales.org.uk

## Cyflwyno cais

Os oes gennych ddiddordeb mewn cyflwyno cais, anfonwch eich CV atom ynghyd â'ch atebion i'r cwestiynau canlynol. Gofalwch ddileu eich enw ac unrhyw wybodaeth sy'n golygu bod modd eich adnabod o'ch CV cyn ei gyflwyno.

**1. Pa sgiliau a phrofiad byddech chi'n eu cyfrannu i'r rôl?** ***[Dim mwy na 250 o eiriau]***
**2. Yn eich barn chi, beth yw manteision sefydlu model rhiant-wirfoddolwyr?** *[Dim mwy na 250 o eiriau]*

I gael cymorth gyda'r broses ymgeisio, cysylltwch â susie.mcandrew@childreninwales.org.uk

## Amserlen ymgeisio

- 7 Awst 2025 – Y dyddiad cau i ymgeiswyr
- 8 Awst – Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod drwy e-bost a ydynt wedi llwyddo i fynd ymlaen i'r cyfweliad
- 13 Awst – Cynhelir cyfweliadau
- 1 Medi neu'n fuan wedyn – dyddiad cychwyn

## Gwybodaeth amdanom ni

Mae gan Plant yng Nghymru fwy na 31 mlynedd o brofiad o gydweithio gyda sefydliadau ac unigolion i hyrwyddo hawliau babanod, plant a phobl ifanc trwy ein rhaglen waith helaeth fel y corff trosfwaol cenedlaethol ar gyfer plant. Mae ein hymrwymiad i rymuso rhieni/gofalwyr yng nghyswllt materion sy'n effeithio ar eu plant yn rhan greiddiol o'n gwaith a gwelir tystiolaeth o hynny yn ein hystod eang o raglenni, sy'n cynnwys rhaglen Cyswllt Rhieni Cymru

Cewch ragor o wybodaeth am ein gwaith yma - Children in Wales | Putting children at the heart of our work